



Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
06/2024

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2024

Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant: Crynodeb

1. Cyflwyniad

- 1.1 Y [Warant i Bobl Ifanc](#) yw ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed, sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant a'u helpu i ddod o hyd i swydd neu i ddod yn hunangyflogedig (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn darparu strwythur ambarél sy'n eistedd uwchben rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc, gan geisio defnyddio ymyriadau presennol yn llawn, datblygu ymyriadau newydd a chreu taith syml i bobl ifanc, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau a'u cefndir. Mae'r gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu un llwybr syml, er nad yr unig llwybr, i gael mynediad at y rhaglenni a'r gwasanaethau.
- 1.2 Mae'r papur hwn yn adrodd ar Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth, a'i amcan oedd nodi:
 - y rhwystrau trawsbynciol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ran ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; a
 - "yr hyn sy'n gweithio" wrth gynorthwyo pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau hynny.
- 1.3 Adolygiad desg oedd hwn yn bennaf gan ddefnyddio'r canlynol:
 - chwiliad systematig o lenyddiaeth i nodi (i) y rhwystrau trawsbynciol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu (ii) tystiolaeth o'r "hyn sy'n gweithio"¹ ac
 - adolygiad desg o ystadegau'r llywodraeth (data sy'n deillio o arolygon, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg o'r Llafurlu) a data gweinyddol (gan gynnwys data o'r Rhaglen Cymunedau am Waith) i nodi nodweddion pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).
- 1.4 Cafodd hyn ei ategu gan nifer bach o gyfweiliadau ag ymarferwyr (n=7) sy'n ymwneud â datblygu a/neu gyflwyno ymyriadau cymorth EET (yng Nghymru).

¹ Wrth werthuso tystiolaeth ynghylch 'yr hyn sy'n gweithio', defnyddiwyd [safonau tystiolaeth y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau \(NESTA\)](#), a chafodd tystiolaeth a oedd ar lefel 3 neu uwch ei chynnwys. Cafodd tystiolaeth ar lefelau is 1 a 2 ei hystyried o dan 'beth arall allai weithio' a'i thrin fel ymarfer addawol, ond heb ei brofi.

1.5 Er bod yr adolygiad yn defnyddio ac yn dwyn ynghyd y dystiolaeth bresennol yn bennaf, mae'n ystyried goblygiadau newidiadau mewn cyd-destun, fel y pandemig, ac yn defnyddio model o newid ymddygiadol, y fframwaith COM-B, i ddarparu safbwynt newydd ar y dystiolaeth hon a'i goblygiadau ar gyfer polisi yng Nghymru.

2. Nodweddion pobl ifanc NEET

2.1 Mae data meintiol ac ansoddol (fel data a gynhyrchir drwy arolygon a chyfweiliadau â phobl ifanc NEET) yn nodi amrywiaeth o nodweddion² sy'n gysylltiedig â risg uwch y bydd person ifanc yn NEET. Mae rhai o'r nodweddion hyn, fel byw mewn ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), yn ffactorau (neu achosion) 'eithaf' neu sylfaenol sy'n cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd person ifanc yn NEET. Mae nodweddion eraill, fel cymwysterau isel, yn ffactorau 'agosaf', neu fwy uniongyrchol, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y tebygolrwydd y bydd person ifanc yn NEET ac sydd fel arfer yn cael eu llunio gan ffactorau eithaf.


Y Model COM-B o newid ymddygiadol

2.2 Nid yw'r berthynas rhwng nodwedd, fel ACE a risg uwch o fod yn NEET bob amser yn amlwg. Gall model o newid ymddygiadol fel y model COM-B helpu i esbonio sut a pham mae'r nodweddion hyn yn gysylltiedig â risg uwch o fod yn 'NEET'. Mae'r model yn rhagdybio bod ymddygiad, fel chwilio'n effeithiol am waith, gwneud cais amdano a dechrau gweithio, yn gofyn am y canlynol:

- y gallu - neu'r **galluogrwydd** – i gyflawni'r ymddygiad (e.e. meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol);
- y bwriad – neu'r **cymhelliant** – i gyflawni'r ymddygiad; ac
- absenoldeb cyfyngiad amgylcheddol (e.e. peidio â wynebu rhwystrau fel gofal plant) neu i'r gwrthwyneb, cael y **cyfle** – i gyflawni'r ymddygiad (Michie et al., 2011).

2.3 Mae'r tri ffactor hyn yn sail i'r model COM-B, a ddangosir gan Ffigur 2.1.

Ffigur 2.1. Y Fframwaith COM-B



Ffynhonnell: Michie et al., 2011

² Mae'r adroddiad yn ystyried 'rhwystrau' ond mae'n canolbwyntio'n bennaf ar 'nodweddion' pobl ifanc sy'n gysylltiedig â pherygl uwch o fod yn NEET (ac yn defnyddio'r iaith hon drwyddi draw). Gellir dadlau bod hyn yn fwy na gwahaniaeth semantig, gan fod 'rhwystrau' yn awgrymu rhwystrau i weithred neu ganlyniad; weithiau mae'r rhain yn glir, er enghraifft, lle nad oes llawer o gyfleoedd cyflogaeth neu mae person ifanc yn profi gwahaniaethu. Fodd bynnag, gall natur rhwystrau a grëwyd gan rai nodweddion a nodwyd gan yr ymchwil fel rhai sy'n gysylltiedig â risg uwch o fod yn NEET, fel dod o aelwyd heb waith, fod yn llai amlwg. At hynny, gall iaith rhwystrau fod yn ddi-fudd wrth geisio deall pam mae rhai pobl ifanc yn goresgyn 'rhwystr', fel bod â chymwysterau isel neu gyfrifoldeb gofalu, lle mae'n ymddangos na all pobl ifanc eraill ei oresgyn.

- 2.4 Fel y mae Ffigur 2.1 yn dangos, mae galluogrwydd, cyfle, cymhelliant ac ymddygiad i gyd yn gysylltiedig fel y gall, er enghraifft, hyder yn y gallu i gyflawni ymddygiad yn llwyddiannus, fel chwilio am waith a'r cyfle i wneud hynny, gynyddu cymhelliant person ifanc i chwilio am waith. I'r gwrthwyneb, mae cyfleoedd cyfyngedig (er enghraifft, oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu allgáu digidol) neu alluogrwydd cyfyngedig (er enghraifft, salwch neu brofiad a dealltwriaeth gyfyngedig o'r farchnad lafur), yn gallu tanseilio cymhelliant.
- 2.5 Mae Ffigur 2.2 yn dangos y prif ffactorau eithaf ac agosaf a nodwyd gan yr adolygiad a sut y mae pob un o'r ffactorau hyn yn cynyddu'r risg bod person ifanc yn NEET, drwy gyfyngu ar y canlynol o ran pobl ifanc: galluogrwydd, cyfle a/neu gymhelliant i gymryd rhan mewn ymddygiad fel gweithgaredd chwilio am swydd. Mae hefyd yn dangos dwy neges bwysig o ymchwil i groestoriadedd (gweler y testun mewn blwch) sef:
- yn aml mae gan bobl ifanc nodweddion lluosog sy'n gysylltiedig â risg gynyddol o fod yn NEET; er enghraifft, efallai fod ganddynt sgiliau isel neu ddim sgiliau, cyflwr iechyd meddwl a/neu maent yn anabl; ac
 - y gall y ffactorau gwahanol hyn ryngweithio a gallant gymhlethu neu waethygu ei gilydd.
- 2.6 Felly, gall profiadau pobl ifanc sy'n anabl ac sydd â chyflwr iechyd meddwl fod yn wahanol iawn i'r rhai sydd naill ai'n anabl yn unig neu'n dioddef o gyflwr iechyd meddwl yn unig. Fel y mae ffigur 2.2 yn dangos, gellir defnyddio'r fframwaith COM-B i helpu i archwilio hyn a'i ddeall yn well a dangos sut y gall anabled a chyflyrau iechyd meddwl:
- wneud pobl ifanc yn agored i wahaniaethu (gan gyfyngu ar eu mynediad at gyfleoedd);
 - cyfyngu ar alluogrwydd pobl ifanc; ac
 - o ganlyniad, eu digalonni rhag chwilio am waith (fel eu bod yn mynd economaidd anweithgar).

Croestoriadedd

Gall agweddau gwahanol ar hunaniaeth person ifanc, fel ei ethnigrwydd, rhywedd, anabledd a'i ddosbarth cymdeithasol, groestorri i greu profiadau gwahanol ac weithiau penodol o wahaniaethu neu fraint; er enghraifft, gall hiliaeth waethygu gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â rhywiaeth a golygu y gall menywod Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol fod "dan anfantais ddwbl"³. Mae'r ffyrdd y mae gwahanol raniadau cymdeithasol yn 'rhyngblethu' ac yn rhyng-gysylltiedig, wedi'u disgrifio fel 'croestoriadedd' (Llywodraeth yr Alban, 2022; Yuval-Davies, 2006).

Mae hwn yn faes ymchwil pwysig a gall fod yn faes diddordeb cynyddol. Mae'r dystiolaeth ansoddol a meintiol a gynhwysir yn yr adolygiad hwn yn tynnu sylw at effaith agweddau cymdeithasol fel ableddiaeth, hiliaeth a rhywiaeth, ar brofiadau pobl ifanc o wahaniaethu a braint, ac felly eu mynediad at gyfleoedd. Fel y dengys y model COM-B, gall hyn yn ei dro lunio eu cymhelliant a'u hymddygiad, felly er enghraifft, o ganlyniad i brofiadau o wahaniaethu, efallai y byddant yn teimlo nad oes pwynt ceisio dod o hyd i waith.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gynhwysir yn yr adolygiad hwn hefyd yn tynnu sylw at amrywiaeth o ffactorau, fel sgiliau hanfodol gwan, a allai lunio hunaniaeth person ifanc (a'i ymdeimlad o'i hun)⁴, a chanfyddiad pobl eraill ohonynt hefyd, a all felly gyfyngu ar eu mynediad at gyfleoedd neu ymestyn y mynediad hwn, gan greu profiadau y gellir eu teimlo fel 'gwahaniaethu' neu 'faint'. Yn bwysig, fodd bynnag, yn wahanol i ffactorau eraill fel ethnigrwydd neu ddosbarth cymdeithas, gallant hefyd gyfyngu'n uniongyrchol ar alluoedd pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd.


Mae croestoriadedd yn parhau i fod yn derm dadleuol ac mae'n bwysig, os caiff ei ddefnyddio, nad yw'n arwain at ganolbwyntio'n rhy gul ar hunaniaeth bersonol fel y ffactor pwysicaf o ran deall safle pobl ifanc mewn cymdeithas⁵, sy'n creu'r risg o hanfodoli pobl ifanc (h.y. eu diffinio drwy un neu fwy o ddynodwyr hunaniaeth). Yn ehangach, mae canolbwyntio ar wahaniaethu a rhwystrau yn gallu trin pobl ifanc fel dioddefwyr goddefol cyfyngiadau strwythurol, gan wadu unrhyw ymdeimlad o weithgarwch iddynt (a'u gallu i weithredu a cheisio goresgyn rhwystrau) (Parker, 2010).

³ Er enghraifft, gall y gwahaniaethu a brofir gan fenywod Mwslimaidd gael ei waethygu gan wisg Islamaidd, sy'n eu gwneud yn fwy gweladwy ac felly'n fwy tebygol o brofi gwahaniaethu.

⁴ Gellir ystyried bod nodweddion fel sgiliau hanfodol gwan, yn rhannol, yn lluniad cymdeithasol (gan nad yw sgil dim ond yn allu technegol i wneud rhywbeth ond hefyd yn arwydd o'r galluoedd y mae cymdeithas yn eu gwerthfawrogi) a gellir dweud bod cyflogwyr a lleoliadau addysg a hyfforddiant yn 'gwahaniaethu' yn erbyn y rhai sydd â sgiliau hanfodol gwan (gan gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd). Fodd bynnag, mae hwn yn fath gwahanol o 'wahaniaethu' nad yw ar y cyfan yn cael ei ystyried yn anghyfiawn o'i gymharu â'r hyn sydd wedi'i wreiddio mewn, er enghraifft, hiliaeth, ableddiaeth neu rywiaeth.

⁵ Er enghraifft, er bod gwahaniaethau o ran cyfran y dynion a'r menywod, pobl anabl ac nad ydynt yn anabl a'r rhai o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, mae'n annhebygol mai gwahaniaethu yn seiliedig ar yr hunaniaethau gwahanol hyn yw'r unig ffactor sy'n pennu'r gwahaniaethau hyn a arsylwyd.

Ffigur 2.2. Map cysyniadol o nodweddion sy'n gysylltiedig â pherygl uwch y bydd person ifanc yn NEET



Ffynhonnell: Ffigur a grëwyd ar gyfer yr adolygiad

*Mae 'ableddiaeth' yn disgrifio polisïau, ymddygiad, rheolau, ac ati sy'n arwain at driniaeth annheg neu niweidiol o bobl anabl, a all gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Acronymau:
 ACE – Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
 ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol
 GCA – Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad

3. Cyffredinrwydd nodweddion gwahanol sy'n gysylltiedig â risg uwch y bydd person ifanc yn NEET

3.1 Mae llawer o'r nodweddion a amlinellir yn ffigur 2.2 sy'n gysylltiedig â pherygl uwch o fod yn NEET, fel cael anawsterau iechyd meddwl neu gymwysterau isel neu ddim cymwysterau, yn gyffredin ac mae gan tua un o bob pump o bobl ifanc o leiaf un o'r nodweddion hyn (h.y. anhwylder iechyd meddwl neu gymwysterau isel neu ddim cymwysterau⁶). Fodd bynnag, fel y mae Tabl 3.1 yn dangos, ni fydd yr holl bobl ifanc â'r nodweddion hyn yn NEET; er enghraifft, mae nifer y bobl ifanc yng Nghymru sydd â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau neu anhwylder iechyd meddwl yn llawer mwy na nifer y bobl ifanc â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau neu anhwylder iechyd meddwl sy'n NEET⁷. Dylid nodi bod tabl 3.1 yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol (a restrir isod), a gasglwyd drwy ddefnyddio dulliau gwahanol, a chwmpasu cyfnodau amser a phoblogaethau gwahanol, a dylid eu trin felly fel amcangyfrifon dangosol ac ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng nifer y bobl ifanc â phob nodwedd a (lle y mae ar gael) nifer y bobl ifanc sy'n NEET â phob nodwedd.

Tabl 3.1. Amcangyfrif o gyfanswm y bobl ifanc 16-24 oed â nodweddion dethol sy'n gysylltiedig â pherygl uwch o fod yn NEET, a'r amcangyfrif o nifer⁸ y bobl ifanc sy'n NEET sydd â'r nodweddion hyn (lle mae data ar gael)

Nodwedd	Amcangyfrif o nifer y bobl ifanc sydd â'r nodwedd hon (wedi'i dalgrynnu i'r 000 agosaf)	Amcangyfrif o nifer y bobl ifanc sy'n NEET sydd â'r nodwedd hon (wedi'i dalgrynnu i'r 000 agosaf)
16-24 oed a oedd ag ADY yn yr ysgol uwchradd	76,000	Dd/B
16-24 oed sy'n unig	75,000	Dd/B
16-24 oed sydd ag anhwylder iechyd meddwl tebygol	74,000	11,000
16-24 oed sy'n gofalu am eraill	74,000	Dd/B
16-24 oed sy'n nodi defnyddio unrhyw gyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	63,000	Dd/B
16-24 oed ac yn anabl	52,000	18,000
16-18 oed heb gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch	15,000	9,000
19-24 oed heb gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch	23,000	20,000
16-18 oed heb unrhyw gymwysterau	9,000	3,000
19-24 oed heb gymwysterau	12,000	10,000
Pobl ifanc (16-24 oed)	337,000	52,000

⁶ Er enghraifft, mae data o'r arolwg Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (MHCYP) yn Lloegr, yn nodi bod gan 22 y cant o bobl ifanc rhwng 17 a 24 oed anhwylder meddwl tebygol (NHS Digital, 2022) ac mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd cyfraddau yng Nghymru yn debyg. Yn 2022, roedd gan 17.6 y cant o bobl ifanc gymwysterau o dan lefel 2 (StatsCymru, 2022).

⁷ Nid yw rhywedd wedi'i gynnwys yn y siart, oherwydd bod cyfraddau'r dynion a menywod NEET wedi bod yn cydgyfeirio. Nid yw ethnigrwydd wedi'i gynnwys, oherwydd bod cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn amrywio ar draws grwpiau ethnig gwahanol (LW1, 2022).

⁸ Cyfrifwyd yr amcangyfrifon drwy gymhwysu canrannau sy'n deillio o astudiaethau eraill ynghylch, er enghraifft, cyfran y bobl ifanc sy'n NEET heb gymwysterau, i gyfanswm nifer y bobl ifanc a oedd yn NEET yn 2022.

Ffynonellau:

Nifer y bobl ifanc sy'n NEET: SYG (Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth), HESA, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), StatsCymru 2023a

Unigrwydd: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021

Anhwyllderau Iechyd Meddwl: Arolwg Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (MHCYP) [yn Lloegr], NHS Digital, 2022; Arolwg o'r Llafurlu (Lloegr) Llywodraeth y DU, 2022

Gofalu am eraill: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, 2021

Defnyddio cyffuriau: Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, SYG, 2022

Dim cymwysterau/cymwysterau isel: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Dadansoddiad Llywodraeth Cymru heb ei gyhoeddi o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; Llywodraeth Cymru, 2022b; Llywodraeth Cymru, 2012

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): CYBLD, StatsCymru 2023b

Anabled: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, StatsCymru, 2022, Llywodraeth Cymru, 2022a

- 3.2 Fel y mae tabl 3.1 yn dangos, mae rhai nodweddion, fel bod yn anabl neu heb gymwysterau, â chydberthynas agosach â'r perygl y bydd person ifanc yn NEET (mae ymchwil neu ystadegau'n awgrymu bod tua 40 y cant o bobl ifanc sy'n NEET naill ai'n anabl a/neu â chymwysterau isel). Yn yr un modd, maent hefyd yn dangos nad yw'r nodweddion hyn yn benodedig, ac er y gallant gynyddu'r risg, nid ydynt o reidrwydd yn golygu y bydd person ifanc yn NEET. Mae tabl 3.1 hefyd yn dangos sut y mae bylchau yn y data yn golygu bod y dadansoddiad hwn dim ond yn bosibl ar gyfer rhai o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â pherygl uwch o fod yn NEET.

Grwpiau o bobl ifanc

- 3.3 Nid yw pobl ifanc sy'n NEET yn ffurfio grŵp homogenaidd. Mae eu hamrywiaeth, o ran eu nodweddion, eu galluedd, mynediad at gyfleoedd, cymhellion ac ymddygiad, yn amlwg. Hefyd, o ganlyniad i groestoriadedd a'r ffyrdd y gall dimensiynau gwahanol o'u hunaniaethau a'u nodweddion lunio eu profiadau, gall fod yn anodd cyffredinoli am bobl ifanc sy'n NEET, oherwydd yn anaml y mae ffactor neu nodwedd sengl sy'n diffinio eu profiadau. Fodd bynnag, os yw pobl ifanc yn cael eu diffinio, nid gan eu nodwedd benodol, ond gan eu cyfeiriadedd tuag at EET, ymhlith pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET (tua 14,000 o bobl ifanc yng Nghymru), amcangyfrifwyd bod tua:

- 40 y cant yn 'gylchol', 'yn pontio' neu'n 'agored i ddysgu', gydag agweddau cadarnhaol ar y cyfan tuag at addysg neu hyfforddiant. Mae'r rhain yn debygol iawn o ailymgysylltu yn y tymor byr ac felly mae angen cymorth ysgafn yn unig arnynt (a fyddai'n cyfateb i tua 5,500 o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru);
- mae 20 y cant 'heb benderfynu', yn ansicr, neu'n anfodlon, o ran y cynnig addysg neu hyfforddiant sydd ar gael iddynt ond nid ydynt yn wynebu rhwystrau difrifol neu gymhleth (a fyddai'n cyfateb i tua 3,000 o bobl ifanc); ac
- mae 40 y cant yn NEET sydd wedi'u 'dal', neu hyd yn oed yn cymryd cam yn ôl, ac yn NEET yn 'barhaus' y mae'n debygol y bydd angen mwy o gymorth arnynt gan eu bod yn wynebu rhwystrau lluosog i ailymgysylltu (Speilhofer et al., 2009; SAC, 2014) (a fyddai'n cyfateb i tua 5,500 o bobl ifanc).⁹

⁹ Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y ddwy ffynhonnell: dadansoddiad segmentu ystadegol o ddata Arolwg Carfan Ieuenctid o ganol y 2000au, i nodi maint pob grŵp (Speilhofer et al., 2009) a data Datganiad Ystadegol Cyntaf ar nifer y [bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Ebrill 2021 i Fehefin 2022](#). Ni ddylid ystyried bod y ffigurau'n amcangyfrifon manwl gywir, oherwydd, er enghraifft, bod y dadansoddiad o ddata'r Arolwg Carfan Ieuenctid wedi dyddio bellach; ac mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Yn lle hynny, maent yn cael eu cynnwys i roi ymdeimlad o faint amcangyfrifedig y gwahanol grwpiau.

3.4 Nid oes data meintiol cymharol ar gael ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET (tua 38,000 o bobl ifanc yng Nghymru).¹⁰ Er ei fod yn gyffredin yn y llenyddiaeth sy'n trafod y rhai 19 i 24 oed i nodi tri grŵp tebyg, gall maint pob grŵp amrywio. O ystyried yr effeithiau creithio (Bell a Blanchflower, 2011), mae'n debygol y bydd gan bobl ifanc sydd wedi bod yn NEET am gyfnod hirach (er enghraifft, ers 16 i 17 oed) rwystrau sydd wedi ymsefydlu'n ddyfnach.

3.5 O ystyried y gwahaniaethau yn eu nodweddion (o ran cymhelliant, galluoedd, ymddygiad a mynediad at gyfleoedd) mae'n rhesymol dod i'r casgliad y bydd angen gwahanol lefelau a mathau o gymorth ar grwpiau gwahanol o bobl ifanc ac felly, ni fydd dull un maint i bawb yn gweithio i bawb. [Mae hon hefyd yn neges allweddol o gyfnod cyntaf Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol \(Llywodraeth Cymru, 2023b\).](#)

Effaith y cyd-destun presennol

3.6 Mae cyffredinrwydd gwahanol nodweddion yn newid dros amser; er enghraifft, mae nifer y bobl ifanc â chymwysterau isel neu heb gymwysterau wedi bod yn gostwng. Fodd bynnag, mae pandemig COVID-19 wedi cynyddu cyffredinrwydd anawsterau iechyd meddwl sydd wedi, yn ei dro, digalonni rhai pobl ifanc, gan leihau eu galluoedd a/neu fynediad at gyfleoedd cyflogaeth¹¹. Mae effaith yr argyfwng costau byw yn llai clir; er enghraifft, gall toriadau mewn incwm gwirioneddol helpu i gymell pobl ifanc i chwilio am gyflogaeth ond gall hefyd ychwanegu at straen bywyd bob dydd, sy'n gallu lleihau lled band meddyliol pobl ifanc¹² ac felly eu galluogrwydd i chwilio am waith yn effeithiol.

4. Pobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu

4.1 Er efallai y bydd pobl ifanc am gael cymorth ac y byddent yn cael budd ohono, mae llawer nad ydynt yn manteisio arno. Mae hon yn her allweddol; fel y dywed adolygiad y Swyddfa Lafur Ryngwladol (ILO) o warantau ieuencid Ewrop, mae ymgysylltu â 'phobl ifanc NEET heb eu cofrestru', fel arfer y rhai â'r rhwystrau mwyaf cymhleth, yn cael ei ystyried fel un o'r heriau mwyaf difrifol y mae gwledydd yn eu hwynebu wrth fodloni canllawiau argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r Warrant Ieuencid (ILO, 2017).

4.2 Yng Nghymru, drwy chwilio'r llenyddiaeth i nodi'r rhwystrau trawsbynciol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, nodwyd bod gan rai pobl ifanc:

- alluoedd gwan neu wedi'u gwanhau (er enghraifft, o ganlyniad i anawsterau iechyd meddwl, cyflyrau niwroddatblygiadol neu anawsterau yn yr ysgol);
- mynediad cyfyngedig i gyfleoedd o ansawdd (er enghraifft, o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu, anawsterau teithio a/neu wendidau mewn marchnadoedd llafur lleol);
- diffyg cyfatebiaeth rhwng eu dyheadau a'u galluoedd a/neu fynediad at gyfleoedd cyflogaeth; a/neu
- brofiadau negyddol o EET (fel yn yr ysgol neu'r coleg neu 'waith gwael') a/neu wasanaethau cymorth EET.

4.3 Dangosir hyn yn ffigur 2.2. Mae'r heriau hyn yn golygu bod llawer wedi digalonni a naill ai wedi'u dal neu'n cymryd cam yn ôl (er enghraifft, lle mae galluoedd nad ydynt yn cael eu harfer yn gwanhau, yn enwedig yn sgil y pandemig). Mae hwn yn bryder allweddol oherwydd po hiraf y maent yn NEET,

¹⁰ Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn seiliedig ar ddata Datganiad Ystadegol Cyntaf ar nifer y [bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Ebrill 2021 i Fehefin 2022](#). Ni ddylid ystyried bod y ffigurau yn amcangyfrifon manwl gywir, oherwydd bod nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

¹¹ Mae pobl yn fwy tebygol o fod ag agweddau negyddol tuag at weithio gyda phobl ag amhariadau iechyd meddwl neu ar eu rhan, o gymharu â'r rhai ag amhariadau corfforol (Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, 2022).

¹² Mae'r cysyniad yn deillio o waith Shafir a Mullainathan (2013), a amlygodd y galwadau y mae tlodi yn eu gosod ar egni a galluedd meddyliol pobl ifanc, gan nodi bod prinder yn golygu bod y tlawd yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau a phenderfyniadau gwael na'r rhai ag incwm uwch.

y mwyaf yw'r risg y byddant yn ei chael yn anodd ailymgysylltu yn y dyfodol (effaith a ddisgrifir fel 'creithio').

- 4.4 I'r gwrthwyneb, efallai y bydd angen llai o gymorth ar lawer o'r bobl ifanc hynny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET oherwydd eu bod, er enghraifft, mewn cyfnod o 'bontio', a byddent yn debygol o ailymgysylltu hyd yn oed heb gymorth. Gall hyn helpu i esbonio'r lefelau uchel o ddiffrwythedd a nodwyd mewn gwerthusiadau effaith; er enghraifft, fel y nododd un adolygiad diweddar:

'In the higher quality evaluations included here, an impact on employment was found, but the additional impact was often only around 10 percentage points (and often less). In other words, many of the participants would have gone on to get jobs without the evaluated support' (IES, 2020, t.7).

5. Yr hyn sy'n gweithio wrth gynorthwyo pobl ifanc i ymgysylltu ag EET a beth arall allai weithio?

- 5.1 Mae corff cymharol fawr o dystiolaeth sy'n nodi 'yr hyn sy'n gweithio' i helpu pobl ifanc i fynd i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chynnal hyn. Fel y mae ffigur 5.1 yn dangos, mae hyn yn canolbwyntio ar 'yr hyn sy'n gweithio' mewn tri cham.

Ffigur 5.1. Cymorth i ailymgysylltu



Ffynhonnell: Ffigur a grëwyd ar gyfer yr adolygiad

Ystyriaethau allweddol ar gyfer pob cam

- Beth fyddai'n cymell pobl ifanc i fod eisiau ailymgysylltu ag EET? a beth fyddai'n eu cymell i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET?¹³ (a beth allai eu digalonni e.e. oedi, gorfod aros¹⁴)?
- Pa alluoedd sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET? (e.e. hunaneffeithiolrwydd)
- Beth fyddai'n ysgogi pobl ifanc i barhau â'u hymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET? (a beth allai eu digalonni? (e.e. teimlo eu bod yn cael eu trin yn amharchus).
- Pa alluoedd (e.e. sgiliau, iechyd) sydd angen iddynt eu datblygu er mwyn manteisio ar gyfleoedd EET?
- Beth fyddai'n cymell pobl ifanc i gynnal eu hailymgysylltu ag EET? (a beth allai eu digalonni? (e.e. cyflogau ac amodau gwael; gweithleoedd 'gwenwynig')
- Pa alluoedd sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hailymgysylltu ag EET (e.e. dealltwriaeth o ddiwylliannau a disgwyliadau gweithleoedd)?
- Beth allai eu hatal rhag symud ymlaen (e.e. ansicrwydd tai)?

¹³ Mae pobl ifanc sydd am ailymgysylltu ag EET hefyd yn fwy tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET, ond ni ellir cymryd hyn yn ganiataol; er enghraifft, fel y mae Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023a) yn nodi, mae diffyg ymwybyddiaeth o fynediad at wasanaethau cymorth ac, i rai pobl ifanc, stigma sy'n gysylltiedig â hyn a/neu ofnau am hyn.

¹⁴ Gall cymhelliant pobl ifanc i ailymgysylltu fod yn fregus a hyd yn oed yn ddarfodol, a gall oedi neu anawsterau olygu bod y cyfle yn cael ei golli.

- Beth yw'r cyfleoedd cymorth EET sydd ar gael iddynt? A beth allai eu hatal rhag ailymgysylltu (e.e. gofal plant; allgáu digidol)?
- Beth allai eu hatal rhag symud ymlaen (e.e. ansicrwydd tai)?

5.2 Mae'r adolygiad yn nodi nad oes 'bwled arian' (neu ateb i bob problem), ond mae'r hyn sy'n gweithio ar bob cam yn cael ei ddeall yn gymharol dda ac yn cynnwys:

- canolbwyntio ar bobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o'u cymhelliant, eu galluoedd a/neu fynediad at gyfleoedd, sy'n gallu galluogi a chyfyngu eu hymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET gymaint â'u hymgysylltu â chyfleoedd EET;
- canolbwyntio ar gyflogwyr ac ar ddarparwyr addysg neu hyfforddiant hefyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'u disgwyladau a'r cyfleoedd EET sy'n agored i bobl ifanc. Gall hyn helpu i sicrhau bod cymorth i bobl ifanc yn rhoi'r galluoedd, yr agweddau a'r ymddygiad iddynt y mae cyflogwyr neu ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn eu disgwyl; y gall y rhai sy'n rhoi cymorth froceru mynediad at gyfleoedd; a bod dyheadau pobl ifanc yn cyd-fynd â'u galluoedd a'r cyfleoedd EET y gallant gael mynediad atynt;
- cynorthwyo pobl ifanc mewn ffordd hyblyg, ymatebol, sy'n canolbwyntio ar y person, drwy rolau deuol oedolyn y gellir ymddiried ynddo a gweithiwr proffesiynol arweiniol, a all ddarparu cymorth bugeiliol ac ymarferol eu hunain a broceru mynediad at gyfleoedd EET a chymorth gan eraill (e.e. gwasanaethau iechyd a thai) lle bo angen; a
- gwneud hyn i gyd yn dda drwy, er enghraifft, sicrhau bod gan staff y cymhelliant a'r galluoedd a mynediad at gyfleoedd (fel cymorth gan bartneriaid) sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau a bod rhaglenni'n cael eu cyllido'n ddigonol a'u gwerthuso'n gadarn.

5.3 Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth hon wedi'i chyfyngu'n bennaf i 'yr hyn sy'n gweithio' ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET (gan eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau) ac mae llawer llai yn hysbys ynghylch 'yr hyn sy'n gweithio' gyda'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu (nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys mewn gwerthusiadau).

Effeithiolrwydd tebygol gwarantau ieuenctid

5.4 Mae tystiolaeth o'r UE bod cynlluniau gwarant ieuenctid yn y Ffindir a Sweden wedi arwain at ddiweithdra is. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu nad oes unrhyw beth o reidrwydd yn drawsnewidiol am warantau ieuenctid, yn enwedig pan maent yn cynnwys ymyriadau presennol, y mae eu heffeithiolrwydd yn gymedrol yn unig. Felly, mae'r hyn y mae gwledydd yn dewis ei wneud (yr integreiddio sy'n sail i warant ieuenctid) a sut y maent yn ei wneud (o ran paratoi adnoddau a chyflawni), yn bwysicach na gwneud gwarant. Bydd y gwaith o gynllunio a gweithredu'r Warrant i Bobl Ifanc yng Nghymru yn cael ei drafod ymhellach yn y gwerthusiad o'r Warrant i Bobl Ifanc sydd ar ddod.

6. Casgliadau

Pam mae rhai pobl ifanc yn NEET?

- 6.1 Mae deall pam mae pobl ifanc yn NEET a sut y mae hyn yn debygol o newid wrth i'r cyd-destun newid (e.e. yn sgil y pandemig) yn hanfodol i lywio cymorth i'w hannog a'u galluogi i ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac yna symud ymlaen ynddynt.
- 6.2 Er, nad oes nodwedd 'ddiffiniol', na hyd yn oed cyfres o nodweddion, sy'n golygu y bydd person ifanc yn NEET, gall model fel COM-B fod yn ddefnyddiol wrth ddeall pam mae rhai pobl ifanc yn NEET, ond nid y mwyafrif ohonynt. Mae'n canolbwyntio sylw ar gyfres o ffactorau risg, sy'n gallu rhyngweithio â'i gilydd, gan gynyddu'r risg y bydd person ifanc yn NEET ymhellach, drwy gyfyngu ar ei gymhelliant, ei alluogrwydd a/neu fynediad at gyfleoedd.

Beth sy'n gweithio?

- 6.3 Mae'n ymddangos bod rhaglenni a dulliau presennol i gynorthwyo pobl ifanc NEET yn gweithio orau gyda'r rhai tra medrus, cymwysedig a llawn cymhelliant. Fodd bynnag, mae'r ychwanegedd yn aml yn gymharol fach; hynny yw, byddai llawer o bobl ifanc sy'n cael eu cynnwys gan y rhaglenni wedi dechrau cyflogaeth heb y cymorth a werthuswyd (IES, 2020). Fel y mae un astudiaeth yn nodi, profiad llawer o raglenni'r farchnad lafur yw bod y cymorth yn y pen draw o fudd i'r rhai sydd agosaf at y farchnad lafur, y gall llawer ohonynt ddod o hyd i waith heb gymorth o gwbl (Damm et al., 2020).
- 6.4 Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, yn gyffredinol y rhai â'r galluogrwydd a'r cymhelliant gwannaf a/neu'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig, sy'n llai tebygol o ailymgysylltu ag EET heb gymorth, yw'r anoddaf i ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo a'r lleiaf tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol os ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET.
- 6.5 Mae hyn yn codi cwestiynau anodd ynghylch y lle orau i dargedu adnoddau prin; er enghraifft i:
- ganolbwyntio ar ymyriadau y mae eu heffeithiolrwydd wedi'i ddangos, ond dangoswyd eu bod yn cael effaith gymedrol yn unig ac nad ydynt yn cyrraedd rhai grwpiau targed; neu
 - i ganolbwyntio ar ymyriadau nad yw eu heffeithiolrwydd (eto) wedi'i ddangos (gwerthuso), ond a allai fod o fudd i grwpiau nad oes ymgysylltu effeithiol â nhw ar hyn o bryd a/neu nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan ymyriadau presennol.

Goblygiadau i Gymru

- 6.5. Mae'r dystiolaeth (gyfyngedig) o'r adolygiad hwn (nad oedd yn werthusiad cynhwysfawr o bolisi) yn awgrymu bod polisiau presennol yn seiliedig ar dystiolaeth; er enghraifft:
- mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPP) yn canolbwyntio'n gryf ar fynd ati'n gynnar i nodi pobl ifanc 16-18 oed sydd wedi ymddieithrio neu mewn perygl o wneud hynny (LIC, 2016);
 - mae rhaglenni fel Cymru'n Gweithio a Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) yn cynnig cyngor, hyfforddiant a chymorth personol (Llywodraeth Cymru, 2022c, 2023c); ac
 - mae rhaglenni fel Twf Swyddi Cymru a CfW+ yn cynnig cymorth a mynediad ychwanegol at hyfforddiant a lleoliadau gwaith (Llywodraeth Cymru, 2023c).
- 6.6. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod dim ond yn gweithio'n weddol dda, fel y dangosir gan y canlynol:
- mae cyfrannau rhai grwpiau o bobl ifanc, fel pobl ifanc anabl sy'n NEET, yn uchel iawn;
 - mae nifer mawr o bobl ifanc sy'n NEET nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET ac maent yn wynebu risg o gael eu dal, neu hyd yn oed gymryd cam yn ôl, os yw eu galluogrwydd a'u cymhelliant i ailymgysylltu ag EET yn dirywio dros amser; ac
 - mae'n debygol y byddai llawer o'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo gan wasanaethau cymorth EET yn ailymgysylltu yn absenoldeb cymorth (sy'n golygu bod ychwanegedd cyfyngedig), er y gallent wneud hynny'n arafach a/neu ei chael yn anodd cynnal eu hailymgysylltu ag EET yn absenoldeb cymorth.
- 6.7. Felly, mae'n annhebygol y bydd gwneud rhagor o'r un peth yn ddigonol. Fel y dengys tabl 6.1, mae'r adolygiad yn amlygu tri maes eang ar gyfer gweithredu. Mae'r adolygiad hefyd yn glir nad dim ond yr hyn sy'n cael ei wneud sy'n gwneud gwahaniaeth, ond pa mor dda mae'n cael ei wneud. Felly, mae'n bosibl, er y tu hwn i gwmpas yr adolygiad hwn i asesu hyn, bod y broblem yn fwy o fwch rhwng bwriad polisi ac ymarfer, yn hytrach na bylchau mewn polisi. Felly, yn hytrach na rhaglenni newydd, efallai'r hyn sy'n ofynnol yw newid yn niwylliant ac ymarfer rhaglenni presennol.
- 6.8. Mae hefyd yn debygol bod pwyslais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys yn berthnasol iawn wrth lunio darpariaeth gwasanaethau; er enghraifft:
- mae effeithiau 'creithio' posibl yn sgil ymddieithrio rhag EET ac anawsterau a chostau ailymgysylltu rhai pobl ifanc sy'n NEET yn amlygu pwysigrwydd atal;

- mae pwysigrwydd deall profiad byw pobl ifanc a'u cymhellion, eu galluogrwydd a mynediad at gyfleoedd ac ymddygiad, er mwyn deall yn well sut i ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo, yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydgynhyrchu; ac
- mae'r amrywiaeth o ffactorau sy'n llunio cymhellion a galluoedd pobl ifanc a'u mynediad at gyfleoedd, yn atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio ac integreiddio.

6.9. I alluogi cydweithio ac integreiddio er mwyn helpu i sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at y cymorth ychwanegol sydd eu hangen arnynt, pan mae ei angen arnynt, mae'n hanfodol bod, er enghraifft, staff mewn gwasanaethau cymorth EET a gwasanaethau cymorth eraill, fel gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau tai, gwasanaethau cyngor ariannol, a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol:

- yn deall gwasanaethau ei gilydd a'r hyn y maent yn ei gynnig; ac
- yn gwybod am lwybrau atgyfeirio a bod â'r hyder i wneud atgyfeiriadau (er enghraifft, mae ganddynt hyder y bydd y gwasanaethau y maent yn atgyfeirio pobl ifanc iddynt yn ymateb yn effeithiol a chyda pharch, mewn ffordd amserol).

6.10. Mae arfer arweinyddiaeth systemau sy'n mynd y tu hwnt i fodolau presennol o weithio mewn partneriaeth (fel sefydlu dulliau i atgyfeirio pobl ifanc rhwng partneriaid, heb newid sut y mae pob partner yn gweithio) i newid a herio'r system, fel ei bod yn canolbwyntio mwy ar y person na'r gwasanaeth, hefyd yn debygol o fod yn bwysig; er enghraifft (gan ganolbwyntio ar iechyd meddwl), gallai hyn gynnwys:

- profiadau pobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET yn llywio datblygiad gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc; a
- yr arbenigedd mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio i feithrin sgiliau a hyder gwasanaethau cymorth EET wrth weithio gyda phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl.

6.11. Fodd bynnag, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar y person ifanc, mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod angen i wasanaethau cymorth EET ganolbwyntio ar EET: mae angen iddynt ddeall disgwyliadau cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig. Mewn gwirionedd, mae angen iddynt edrych y ddwy ffordd; er enghraifft, os ydynt dim ond yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, heb fod â dealltwriaeth gref hefyd o ofynion a disgwyliadau EET, maent yn creu'r risg bod pobl ifanc yn methu cyn dechrau, a hefyd o bosibl yn ymwreiddio ymddieithriad pobl ifanc rhag EET. Heb y ddealltwriaeth hon, ni all gwasanaethau cymorth EET wneud y canlynol:

- ni allant baratoi pobl ifanc yn briodol ar gyfer ailymgysylltu (e.e. drwy wella eu galluoedd a helpu i gysoni eu dyheadau â'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt); ac
- ni allant gynnal cyfateb EET effeithiol, sy'n hanfodol er mwyn helpu i gynyddu cynaliadwyedd ailymgysylltu pobl ifanc ag EET.

6.12. Mae cydweithio ac arweinyddiaeth systemau yn debygol o fod yn bwysig yma hefyd, gydag, er enghraifft, gwasanaethau cymorth EET yn helpu i lunio cyfleoedd EET pobl ifanc a chyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant yn helpu i lunio cynnig gwasanaethau cymorth EET i bobl ifanc.

Tabl 6.1. Cryfhau'r cymorth ar gyfer ailymgysylltu : beth sy'n gweithio a beth allai weithio (mewn llythrennau italig)

	Ymgysylltu â gwasanaethau cymorth EET	Cymorth i ailymgysylltu ag EET	Cymorth i helpu pobl ifanc i gynnal ailymgysylltu ag EET
Cymhelliant	<ul style="list-style-type: none"> Nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn NEET / sy'n NEET ac estyn allan a chynnig cymorth iddynt; sicrhau bod y cynnig cymorth (gan gynnwys e.e. cymhellion ariannol ac 'atyniadau' eraill) a'r disgwyliad bod manteision ailymgysylltu ag EET yn: <ul style="list-style-type: none"> fwy deniadol nag opsiynau eraill (e.e. gweithio yn yr economi anffurfiol; gemau); yn golygu bod gan bobl ifanc hyder, bod y broses yn teimlo'n ddynol (gan gynnwys, er enghraifft, cymorth gan 'oedolion y gellir ymddiried ynddynt') a'u trin â pharch; ac yn ddigon hyblyg a chyfannol i ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth o bobl ifanc, a fydd â chymhellion, galluoedd a mynediad at gyfleoedd gwahanol (h.y. sy'n canolbwyntio ar y person) yn ogystal â disgwyliadau gwahanol cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant gwahanol (fel ei fod hefyd yn canolbwyntio ar EET). <i>Annog hunanatgyfeiriadau, gan amlaf drwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a thrwy argymhellion ar lafar ac ymgysylltu â chymheiriaid.</i> 		<ul style="list-style-type: none"> Paru â swyddi (neu addysg a hyfforddiant) yn effeithiol (i sicrhau bod dyheadau a galluoedd person ifanc yn cyd-fynd yn dda â'r cyfleoedd EET y maent yn manteisio arnynt), sy'n bwysicach na chymorth mewn gwaith. Mynediad at gymorth mewn EET er mwyn helpu i ddatrys problemau (gweler isod) ac annog cynnydd mewn EET, a allai fod yn bwysig i'r rhai sy'n wynebu risg uwch o ymddieithrio.
Galluogrwydd	<ul style="list-style-type: none"> <i>'Sefydlogi': sicrhau bod anghenion sylfaenol pobl yn cael eu diwallu, fel bod ganddynt y galluogrwydd ac yn gallu datblygu'r cymhelliant i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth;</i> <i>Amynedd a dyfalbarhad: aros nes bod rhai pobl ifanc yn barod i ailymgysylltu ac yn gallu gwneud hynny (e.e. pan</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar chwilio am swyddi, gwneud ceisiadau a chyfleoedd cyflogaeth. Rhoi cymorth bugeiliol ac ymarferol (e.e. datblygu hunanhyder, hunangymhelliant a sgiliau galwedigaethol) sy'n helpu pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar gynnig y gwasanaethau cymorth EET. Mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant (gan gynnwys lleoliadau gwaith) sy'n gallu gwella'r galluoedd y mae cyflogwyr yn eu disgwyl/mynnu (sy'n gofyn am ymgysylltu effeithiol â chyflogwyr). 	<ul style="list-style-type: none"> Gwella galluoedd pobl ifanc, gan gynnwys eu sgiliau, cydnerthedd a mynediad at gymorth EET er mwyn (i) helpu i ddatrys problemau yn y gweithle / addysg neu leoliad hyfforddiant (e.e. perthnasoedd â chydweithwyr) a'r tu allan (er enghraifft, cymorth gofal plant sy'n chwalu) a (ii) cynorthwyo cynnydd mewn EET, a allai fod yn bwysig, pan fydd, er enghraifft, mynediad cychwynnol i swyddi heb hyfforddiant

	<i>maent yn cyrraedd trobwynt posibl yn eu bywydau).</i>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Pontio'r bwch rhwng disgwiliadau cyflogwyr o bobl ifanc a dealltwriaeth pobl ifanc o'r hyn a ddisgwylir ganddynt (e.e. drwy leoliadau gwaith).</i> • <i>Gwella dealltwriaeth gwasanaethau EET o effaith cymorth arbennig, a mynediad pobl ifanc ato, e.e. ar gyfer anawsterau iechyd meddwl neu ACE.</i> 	<p>neu addysg neu hyfforddiant ôl-16 heb lwybrau cynnydd clir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Datblygu cymorth mwy arbenigol mewn EET (fel cymorth mewn gwaith) ar gyfer grwpiau allweddol, fel pobl ifanc niwroamrywiol i'w helpu i gynnal eu hymgysylltiad ag EET.</i>
Cyfle	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gwella hygyrchedd ffisegol a seicolegol gwasanaethau cymorth EET drwy ddarparu cymorth lleol (cymunedol) sy'n seiliedig ar leoedd a mentrau arloesol mewn trafnidiaeth gyhoeddus.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Datgymalu rhwystrau sefyllfaol fel cyfrifoldebau gofalu, neu ansicrwydd tai a helpu pobl ifanc i'w goresgyn a/neu greu cyfleoedd newydd, er enghraifft, drwy gymorthdaliadau i gyflogwyr.</i> • <i>Cyflogaeth â chymorth i grwpiau a allai wynebu rhwystrau ychwanegol / penodol, fel pobl ifanc niwroamrywiol neu bobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl.</i> • <i>Meithrin hyder a galluedd staff cymorth EET wrth weithio gyda grwpiau a allai wynebu rhwystrau ychwanegol / penodol fel pobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant i nodi, deall, a meithrin cyfleoedd newydd (e.e. drwy gymorthdaliadau cyflog; cyllid ar gyfer darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 newydd).</i>

Cyfeiriadau

- Bell, D. N. F. a Blanchflower, D. G. (2011) '[Young people and the Great Recession](#)', *Oxford Review of Economic Policy*, 27(2), 241–267
- Damm, C., Green, A., Pearson, S., Sanderson, E., Wells, P. a Wilson, I. (2020) '[Talent Match Evaluation: A Final Assessment](#)', Prifysgol Sheffield Hallam.
- Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2020) [Supporting disadvantaged young people into meaningful work: An initial evidence review to identify what works and inform good practice among practitioners and employers](#), Sefydliad Dyfodol Ieuencid.
- Swyddfa Lafur Ryngwladol (2017) [The European Youth Guarantee: A systematic review of its implementation across countries](#), Swyddfa Lafur Ryngwladol
- Michie, S., van Stralen, M. M. a West, R. (2011) A behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change methods, *Implementation Science*, 2011, 6:42.
- Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2021) [Social Research - disabled people at work; accepted as equals? British Social Attitudes](#)
- NHS Digital (2022) [Mental Health of Children and young people in England 2022](#), Wave 3 follow up to the 2017 Survey
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) [Drug misuse in England and Wales: year ending June 2022](#)
- Parken, A. (2010) [A multi-strand approach to promoting equalities and human rights in policy making](#)
- Llywodraeth yr Alban (2022) [Using intersectionality to understand structural inequality in Scotland: evidence synthesis](#)
- Senedd (2022a) [Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol: A yw'r bar wedi'i godi neu a oedd y bar yn rhy isel cyn hynny?](#) Ymchwil y Senedd
- Shafiri, E a Mullainathan, S. (2013). *Scarcity: Why having too little means so much*. Efrog Newydd: Times Books.
- Speilhofer, T., Benton, T., Evans, K., Featherstone, G., Golden, S., Nelson, J. a Smith, P. (2009) '[Increasing Participation Understanding Young People who do not Participate in Education or Training at 16 and 17](#)'.
- StatsCymru (2022) [Anabledd yn ôl oedran a rhyw](#),
- StatsCymru (2023a) [Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran](#)
- StatsCymru (2023b) [Disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn](#)
- Llywodraeth y DU (2022) [NEET Age 16 to 24](#)
- Swyddfa Archwilio Cymru (2014) [Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant](#).
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) [Mewnwelediad data - Oedran ac unigrwydd yng Nghymru](#)
- Llywodraeth Cymru (2012) [Erthygl Ystadegol: Further Analysis of data related to Young People Not in Education, Employment or Training \(NEET\)](#)
- Llywodraeth Cymru (2016) [Gwerthusiad o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid: astudiaeth ddilynol](#)
- Llywodraeth Cymru (2021) [Gofalu \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\) Ebrill 2019 - Mawrth 2020](#)
- Llywodraeth Cymru (2022a) [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\): Ebrill 2021 i Fehefin 2022](#)

Llywodraeth Cymru (2022b) [Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: Ystadegau 2021](#)

Llywodraeth Cymru (2022c) [Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Adroddiad 1 Damcaniaeth Newid, effaith COVID-19, a fframwaith y gwerthusiad](#)

Llywodraeth Cymru (2023a) [Canllawiau: Y Warrant i Bobl Ifanc](#)

Llywodraeth Cymru (2023b) [Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol.](#)

Llywodraeth Cymru (2023c) [Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 \(gwerthusiad proses a theori newid\)](#)

Yuval-Davis, N. (2006). [Intersectionality and Feminist Politics](#). European Journal of Women's Studies, 13(3), 193–209.

Awduron yr Adroddiad: Dr Duncan Holtom gyda Heather Pells Rhodri Bowen ac Emma Preece

Pobl & Gwaith | **People & Work**

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D.; Pells, H.; Bowen, R.; and Preece, E. (2024). *Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 06/2024

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-cyflym-or-dystiolaeth-cynorthwyo-pobl-ifanc-nad-ydynt-mewn-cyflogaeth-addysg-na-hyfforddiant>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Enw: Dr Jacqueline Aneen Campbell

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-339-0